# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MERCHER, 20FED MEHEFIN, 2018**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig - Pencadlys Caernarfon**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 12 Mehefin 2018)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Peter Read

Annwen Daniels

Steve Collings

Gareth Williams (Eilydd)

## Aelodau Lleol

Y Cynghorydd

Annwen Hughes

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO — 5 - 8

Y Maes Café, Llandanwg, Harlech, LL46 2SD

Ystyried y cais uchod

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| PWYLLGOR: | IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG |
|---|---|
| DYDDIAD: | 20 MEHEFIN 2018 |
| TEITL: | CAIS AM DRWYDDED EIDDO – Y MAES CAFÉ, LLANDANWG, HARLECH LL46 2SD |
| PWRPAS: | ER PENDERFYNIAD |
| AWDUR: | PENNAETH AMGYLCHEDD |

**CAIS A DDERBYNIWYD**

Atodir cais am drwydded eiddo gan Derek Graham Perch ac Avril Jane Perch o 67 Cae Gwastad, Harlech , LL46 2GY ar gyfer Y Maes Café, Llandanwg, Harlech LL46 2SD.
Bwriad yr ymgeisydd yw cyflenwi alcohol i gwsmeriaid ar eiddo sydd eisoes yn gweithredu fel caffi 7 diwrnod yr wythnos yn yr haf, ac ar benwythnosau dros y gaeaf. Bwriedir hefyd gynnig gwerthiant alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo.
Bwriedir hefyd chwarae cerddoriaeth radio cefndirol ar yr eiddo yn ystod oriau agor; tu mewn a thu allan.
Ar hyn o bryd, mae'r caffi yn agor tan 5 bob diwrnod yn ystod yr haf; a bwriedir agor yn hwyrach dros yr haf tan 22:00 ar nos Wener a Sadwrn, gyda gwerthiant Alcohol tan 9:30.
Deallir fod yr ymgeisydd hefyd yn bwriadu dangos digwyddiadau chwaraeon yn achlysurol.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG | TRWYDDED ARFAETHEDIG |
|---|---|
| **Cyflenwi alcohol – Ar ac oddi ar y r eiddo** | **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol - Allanol & Dan Do/Outdoors & Indoors**<br><br>Dydd Llun/Monday 12:00 – 16:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday 12:00 – 16:30<br>Dydd Mercher/Wednesday 12:00 – 16:30<br>Dydd Iau/Thursday 12:00 – 16:30<br>Dydd Gwener/Friday 12:00 – 21:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00 – 21:30<br>Dydd Sul/Sunday 12:00 – 16:30 |
| **Cerddoriaeth wedi ei recordio** | **Cerddoriaeth wedi'i Recordio/Recorded Music - Allanol & Dan Do/Outdoors & Indoors**<br><br>Dydd Llun/Monday 10:00 – 17:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 10:00 – 17:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 10:00 – 17:00<br>Dydd Iau/Thursday 10:00 – 17:00<br>Dydd Gwener/Friday 10:00 – 22:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 10:00 – 22:00<br>Dydd Sul/Sunday 10:00 – 17:00 |
| **Adloniant Arall/Other Entertainment** - Dan Do/Indoors | **Adloniant Arall/Other Entertainment** - Dan Do/Indoors<br>Dydd Llun/Monday 12:00 – 17:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 12:00 – 17:00 |

| | |
|---|---|
| | Dydd Mercher/Wednesday 12:00 – 17:00<br>Dydd Iau/Thursday 12:00 – 17:00<br>Dydd Gwener/Friday 12:00 – 22:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00 – 22:00<br>Dydd Sul/Sunday 12:00 – 17:00 |
| **Oriau agor a chau i'r Cyhoedd** | **Oriau Agor / Opening Hours:**<br><br>Dydd Llun/Monday 09:30 – 17:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:30 – 17:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:30 – 17:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:30 – 17:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:30 – 22:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:30 – 22:00<br>Dydd Sul/Sunday 09:30 – 17:00 |

**Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu**

- Rheolaeth gadarn a hyfforddiant i staff gan Reolwr Eiddo Dynodedig fydd ar yr eiddo o ddydd i ddydd.
- Staff i gael hyfforddiant i wirio oedran cwsmeriaid sydd yn prynu alcohol
- Bwriedir gweithredu polisi Her 25 wrth werthu alcohol ar yr eiddo
- Ni fydd ymddygiad gwrth gymdeithasol yn cael ei oddef
- Sicrhau nad oes defnydd na gwerthiant o gyffuriau ar yr eiddo
- Bwriedir defnyddio System Deledu Cylch Cyfyng
- Darpariaeth o nifer digonol o finiau sbwriel yng nghyffiniau'r caffi i gwsmeriaid.
- Staff i gael eu hyfforddi er mwyn gallu cydymffurfio gyda gofynion Iechyd Amgylchedd.
- Gweithio gyda busnesau eraill i sicrhau na chyflenwir alcohol i gwsmeriaid sydd wedi meddwi
- Ni fydd plant yn cael mynediad i'r eiddo gyda'r nos heb riant/gwarchodwr
- Arwyddion i nodi y bydd camau yn cael eu cymryd yn erbyn unigolion sydd yn ymddwyn mewn modd annerbyniol
- Darpariaeth o lefel digonol o oleuo i hyrwyddo'r amcan trwyddedu o ddiogelwch y cyhoedd

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

**YMGYNGHORIAD**

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| | |
| Cyngor Cymuned Llanfair | E bost - gwrthwynebu |
| Aelod lleol | E bost - gwrthwynebu |
| Busnesau, preswylwyr ac ymwelwyr cyfagos | 22 o e-byst a llythyrau yn gwrthwynebu |
| | |

Cafwyd 2 lythyr dienw. Ni ellir derbyn sylwadau dienw ar gais am drwydded eiddo. Gwnaethpwyd y sylwadau mewn perthynas â'r 4 amcan trwyddedu sef -

- Atal trosedd ac anrhefn

- Diogelwch y Cyhoedd
- Diogelu plant rhag niwed
- Atal niwsans cyhoeddus

**Gwrthwynebiadau  - Aelodau lleol a Chyngor Cymuned Llanfair**

Nodwyd fod gwrthwynebiad unfrydol gan oll aelodau'r Cyngor Cymuned a’r cynghorydd lleol i’r cais arfaethedig am nifer o resymau. Yn benodol nodwyd pryderon am y materion isod mewn perthynas â’r amcanion Trwyddedu sef -

1. Datganwyd pryderon nad oedd gan y caffi ei gyfleusterau toiled ei hun - ac y byddai caniatáu gwerthiant alcohol ar gyfer yr oriau estynedig arfaethedig yn rhoi straen ar y cyfleusterau toiledau cyhoeddus. Nodwyd mai'r Cyngor Sir a’r Cyngor Cymuned sydd yn talu am gadw'r toiledau hyn.
2. Nodwyd fod Llandanwg yn ardal dawel , a bod pobl yn dod yno oherwydd y tawelwch; a’r Ardal o Ddiddordeb  Gwyddonol Arbennig ger llaw.
3. Nodwyd fod yr eiddo yn agos iawn i breswylfeydd
4. Datganwyd pryder y byddai sŵn cwsmeriaid a sŵn cerddoriaeth yn cael ei chware tu allan i’r eiddo yn tarfu ar y tawelwch.
5. Roedd y Cyngor yn bryderus y byddai’r drwydded gwerthu alcohol ar gyfer yfed oddi ar safle yn hyrwyddo pobl i fynd a diod ar y traeth a’r twyni i wneud llanast  a sŵn , gyda chynnydd mewn ymddygiad gwrth gymdeithasol.

**Gwrthwynebiadau – trigolion lleol**

Derbyniwyd 22 gwrthwynebiad dilys gan drigolion a busnesau ger llaw. Roedd y pryderon yn berthnasol i’r 4 amcan Trwyddedu ac yn cyfeirio at y materion isod-

1. Mae’r gwrthwynebwyr yn nodi pryderon fod ardal Llanfair  yn ddistaw, a bod ymwelwyr a thrigolion yn preswylio yno oherwydd y llonyddwch.
2. Mae’r caffi yn agored tan 5 y prynhawn ar hyn o bryd , a mynegwyd pryder y byddai oriau agor hirach yn arwain at swn fydd yn amharu ar drigolion; gyda chynnydd mewn trosedd ac anrhefn
3. Mynegodd llawer o ymatebwyr bryderon nad oedd toiledau ar yr eiddo - ac felly nad oedd yr eiddo yn addas i gael trwydded alcohol oherwydd hyn. Nodwyd fod y toiledau cyhoeddus yn cael llawer iawn o ddefnydd yn barod.
4. Mynegwyd pryder fod cerddoriaeth yn gallu cael ei chware tu mewn a thu allan i’r eiddo ac y byddai hyn yn creu niwsans swn i’r preswylwyr cyfagos.
5. Fe nododd llawer o ymatebwyr eu pryderon parthed y bwriad i werthu alcohol ar gyfer ei yfed oddi ar yr eiddo. Roedd llawer yn credu y byddai hyn yn achosi cynnydd yn y sbwriel ar y traeth ac yn y twyni, gyda photeli gwydr wedi malu yn y tywod yn beryglus i blant
6. Fe gyfeiriodd llawer at y ffaith fod yr ardal gyfagos yn Safle o Ddiddordeb  Gwyddonol Arbennig, ac y gallai ymddygiad gwrth gymdeithasol yn deillio o ganiatáu y drwydded yn amharu ar r amgylchedd naturiol.
7. Nododd llawer o ymatebwyr hefyd eu pryderon am y cynnydd mewn traffig y byddai caniatáu’r drwydded yn ei achosi
8. Roedd rhai ymatebwyr yn bryderus am agweddau diogelwch ; oherwydd  byddai alcohol yn cael ei gadw ar y safle a neb yn preswylio yno i warchod yr eiddo

Gellir gweld manylion llawn yr ymatebion a dderbyniwyd yn yr atodiad i’r adroddiad hwn.
Yn dilyn derbyn copïau o’r gwrthwynebiadau; mae’r ymgeisydd wedi ymateb drwy e bost i’r pryderon; ac fe fydd yn ymhelaethu ar hyn yn ystod y gwrandawiad

**ARGYMHELLIAD**

Mae angen sicrhau fod deilydd y drwydded yn gallu cydymffurfio gyda'r rheoliadau perthnasol os yw'r Pwyllgor yn penderfynu caniatáu'r cais hwn.

Argymhellir felly fod y Pwyllgor yn caniatáu yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol; yn ychwanegol i'r hyn a gynigir gan yr ymgeisydd ar gyfer yr Atodlen Weithredol -

1. Fod deilydd y drwydded yn darparu trefniant digonol ar gyfer toiledau i'r cwsmeriaid sydd ar gael tra mae'r eiddo yn agored i'r cyhoedd
2. Nad yw cerddoriaeth wedi ei recordio yn cael ei chware tu allan i'r eiddo

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r uchod â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003; a Datganiad o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor.